# PROFFIL RÔL – Cydlynydd Cystadlaethau Dygnwch

**Teitl y swydd** Cydlynydd Cystadlaethau Dygnwch

**Adrodd i** Rheolwr Cystadlaethau a Thrwyddedu

**Lleoliad** Swydd wedi ei lleoli'n bennaf yn y pencadlys: Campws Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd, Heol Lecwydd, Caerdydd (CF11 8AZ) Cyfleoedd gweithio gartref ac yn y maes ar gael

**Patrwm gweithio** Llawn Amser (37 awr dros 7 diwrnod)
Mae patrymau gweithio hyblyg gan gynnwys gweithio gartref ar gael, a bydd y rôl yn cynnwys gweithio ar rai nosweithiau a phenwythnosau i gefnogi ein calendr digwyddiadau.

**Cyfrifoldebau** Arwain y gwaith o ddarparu a chydlynu'r holl gystadlaethau rhyngwladol a phencampwriaethau oddi ar y trac.

**Pwrpas y Rôl** Bod yn gyfrifol am ddarparu pob digwyddiad Pencampwriaeth dygnwch oddi ar y trac, ynghyd â digwyddiadau rhyngwladol ac allweddol, gan gynnwys Cardiff Cross Challenge, 5k y Gwledydd Cartref a digwyddiadau fel SIAB a chystadleuaeth ryngwladol Rhedeg Mynydd Prydain. Ymgymryd hefyd â phrosesu trwyddedau rasio ar gyfer digwyddiadau dygnwch a chefnogi darparwyr cystadlaethau allanol o bryd i'w gilydd.
Yn ôl cyfarwyddyd y Rheolwr Cystadlaethau a Thrwyddedu, bod ar gael i gefnogi unrhyw ddigwyddiadau ychwanegol drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys holl bencampwriaethau a digwyddiadau trac a maes Athletau Cymru.

**Rhyngwynebau allweddol** Yr holl staff ar draws yr adran cystadlaethau a rhanddeiliaid allanol, fel swyddogion ac aelodau'r pwyllgor. Darparwyr trac a maes allanol, Athletau Ysgolion Cymru.

**Cyflog** £26,000-£28,000 p/a

**Buddion** 10% o'r oriau yn ôl yr wythnos ar gyfer lles.
Amser o'r gwaith os yn gweithio mwy na'r oriau gwaith penodedig
Cymorth iechyd meddwl.
Pecyn gwisg helaeth.
Mynediad at gyfleoedd DPP personol
Cynllun pensiwn aberthu cyflog hael, a chyfraniad cyfatebol o hyd at 6% gan y cyflogwr

**Cydlynydd Cystadlaethau Dygnwch**

Profion llygaid am ddim
Parcio am ddim yn y brif swyddfa
Gweithio hyblyg
25 diwrnod o wyliau â thâl, heb gynnwys gwyliau'r banc

**Diben y Rôl**

Mae Athletau Cymru'n awyddus i recriwtio unigolyn sy'n frwd dros gynnal digwyddiadau o'r radd flaenaf. Bydd y swydd yn cynnwys bod yn arweinydd digwyddiadau pencampwriaeth dygnwch Athletau Cymru – gan sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn cael y profiad gorau posib.

Rydym yn chwilio am rywun sy'n frwd dros greu cystadleuaeth ddygnwch arloesol a gafaelgar ar gyfer aelodau Athletau Cymru. Bydd y rôl yn cynnwys gweithio ar draws adrannau i sicrhau bod y gystadleuaeth yn cyd-fynd yn llwyr ag amcanion strategol cyffredinol Athletau Cymru.

Bydd deiliad y swydd yn cael y dasg o fod yn brif arweinydd cyflwyno ar gyfer cystadlaethau allweddol – gan sicrhau bod pob elfen yn ei lle er mwyn darparu'r profiad gorau posib i athletwyr, swyddogion, gwylwyr a gwirfoddolwyr.

Rhaid i'r person hwn fod yn drefnus iawn, a gallu rheoli sawl prosiect ar yr un pryd a meithrin diwylliant o greadigrwydd ac arloesi bob amser.

**Cyfrifoldebau Allweddol**

Cyflwyno Digwyddiadau

- Bod yn arweinydd gweithredol ar gyfer pob cystadleuaeth ddomestig yng Nghymru, gan gynnwys, ond nid yn unig, Pencampwriaethau traws-gwlad Cymru, her Cardiff Cross Challenge, Pencampwriaethau Rhyngranbarthol Cymru, Rasys Cyfnewid Ffordd Cenedlaethol, Pencampwriaethau traws gwlad Ysgolion Cymru.
- Mynychu cyfarfodydd pwyllgor penodol i adolygu ac ystyried trefnu a datblygu digwyddiadau. Bod yn brif bwynt cyfathrebu rhwng y pwyllgorau perthnasol ac Athletau Cymru.
- Bod yn gyfrifol am gyflawni a gweithredu rhaglen Athletau Cymru ar gyfer cystadlaethau oddi ar y trac.
- Ar y cyd â'r Rheolwr Cystadleuaeth a Thrwyddedu, goruchwylio'r broses o sefydlu rhaglen y tymor ar gyfer cystadlaethau oddi ar y trac.
- Ar y cyd â'r Rheolwr Cystadleuaeth a Thrwyddedu, sicrhau bod yr holl ddigwyddiadau'n cael eu cyflwyno yn unol â chyllideb a bennwyd ymlaen llaw.

**Cydlynydd Cystadlaethau Dygnwch**

- Ar y cyd â chydweithwyr o UKA a Gwledydd Prydain, cynorthwyo i gynllunio rhaglen gystadlu gytbwys trwy gydol y flwyddyn, gan gysylltu â phob un o'r prif ddarparwyr cystadlaethau (domestig a rhyngwladol).
- Ar y cyd â'r pwyllgor perthnasol, sicrhau bod Pencampwriaethau Cymru yn cael eu dyrannu mewn ffordd agored ac eglur, gan sicrhau bod fframwaith sicrhau ansawdd clir ar waith bob amser.
- Goruchwylio gweithrediad, datblygiad a'r defnydd o dechnoleg newydd, gyda'r nod o wella profiad y cwsmer mewn cystadlaethau.
- Goruchwylio a rheoli'r systemau cysylltiedig â chynhyrchu digwyddiadau, medalau, archebu cyfleusterau, dillad y swyddogion ac eitemau angenrheidiol eraill ar gyfer digwyddiadau.
- Lle bo angen, gweithio gyda'r Rheolwr Cystadleuaeth a Thrwyddedu i sicrhau bod safonau trwyddedu Athletau'r Byd ac Athletau Ewropeaidd yn cael eu cyflawni i sicrhau'r statws byd-eang angenrheidiol.

**Trwyddedu**

- Goruchwylio'r gwaith o brosesu trwyddedu digwyddiadau trwy'r porth trwyddedu ar-lein.
- Ar y cyd â'r Rheolwr Cystadlaethau a Thrwyddedu, cefnogi darparwyr cystadlaethau lle bo modd gydag ymholiadau trwyddedu.
- Gweithio'n agos gyda'r adran gyfathrebu i hybu digwyddiadau allweddol i bob rhanddeiliad allweddol.

D.S. Bydd cynlluniau gwaith gweithwyr yn cael eu llywio gan gynllun gweithredol Athletau Cymru. Bydd perfformiad yn cael ei fesur yn erbyn cyflawniad y cynllun hwn a'r dangosyddion perfformiad allweddol a osodir ac y cytunir arnynt ar y cyd ar ddechrau'r cyfnod adolygu.

## Manyleb Person

| | Hanfodol | Manteisiol |
|---|---|---|
| Profiad o gyflwyno digwyddiad chwaraeon | ✓ | |
| Profiad o reoli gwirfoddolwyr | ✓ | |
| Profiad o gyflwyno gwybodaeth i ystod eang o gynulleidfaoedd / partneriaid | ✓ | |
| Gwybodaeth am arferion rheoli digwyddiadau a phrosiectau | | ✓ |
| Hunan-gymhellol a gallu gweithio ar eich menter eich hun | ✓ | |
| Gweithio'n dda mewn tîm ac yn barod i arwain | ✓ | |
| Gallu gweithio ar fwy nag un dasg ar y tro a gweithio'n hyblyg ar draws gwahanol gystadlaethau a phrosiectau | ✓ | |

**Cydlynydd Cystadlaethau Dygnwch**

| | | |
|---|---|---|
| Gallu ennyn brwdfrydedd ac ysgogi eraill | ✓ | |
| Profiad o bob un o ddisgyblaethau athletau (yn benodol disgyblaethau dygnwch) | ✓ | |
| Gallu teithio ledled Cymru (a Phrydain yn ôl yr angen) | ✓ | |
| Sgiliau TG rhagorol i ddefnyddio ystod o feddalwedd | ✓ | |
| Peth gwybodaeth am systemau TG trwyddedu a chofrestru presennol | | ✓ |
| Sgiliau trefnu a sgiliau gweinyddol rhagorol | ✓ | |
| Profiad o reoli gwefan | | ✓ |
| Gallu gweithio dan bwysau ac o fewn amser penodol | ✓ | |
| Sylw agos i fanylion | | ✓ |
| Sgiliau cyfathrebu rhagorol | ✓ | |